Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

# Canolfan Ddeintyddol Townhill, Abertawe

## 14 Tachwedd 2022

Dyddiad cyhoeddi: 3 Ionawr 2023





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk


ISBN Digidol 978-1-80535-215-0

© Hawlfraint y Goron 2022

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Ganolfan Ddeintyddol Townhill fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a gynigir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae gwiriadau ansawdd yn ein galluogi i ystyried sut mae'r gwasanaethau yn cyrraedd y safonau perthnasol mewn ffordd ystwyth, gan ein galluogi i roi cyngor gwella cyflym a chefnogol ar weithredu'r gwasanaethau mewn ffordd ddiogel. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â rheolwr y practis ar 14 Tachwedd 2022 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am ei wasanaeth. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol

- Sut rydych yn sicrhau bod pob claf (gan gynnwys y grwpiau sy'n agored i niwed/sy'n wynebu risg) yn gallu cael gafael ar wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel?
- Pa newidiadau rydych wedi'u rhoi ar waith yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau bod y safonau atal a rheoli heintiau'n cael eu cynnal?
- Sut rydych yn diwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau a ddarperir wedi addasu yn sgil COVID-19?
- Sut rydych yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull seiliedig ar hawliau ar waith ym mhob rhan o'r gwasanaeth?

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Yr asesiad risg amgylcheddol diweddaraf
- Asesiad risg COVID-19.

Hefyd, holwyd cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Disgrifiodd rheolwr y practis y newidiadau a gafodd eu gwneud i'r amgylchedd er mwyn sicrhau y gallai'r practis gydymffurfio â mesurau cadw pellter cymdeithasol i'r staff a'r cleifion. Roedd y rhain yn cynnwys cyfyngu ar nifer y cleifion a'r staff yn y practis ar un adeg ac aildrefnu'r ardaloedd aros drwy wahanu cadeiriau.

Dywedwyd wrthym, o ganlyniad i asesiadau risg amgylcheddol, bod y practis wedi bod yn destun rhaglen adnewyddu lawn yn ddiweddar. Roedd y practis wedi gosod llawr finyl 'cap and cove' drwyddi draw, roedd desg y dderbynfa wedi cael ei gostwng ac roedd y ddeintyddfa ar y llawr gwaelod yn hygyrch i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn.

Cadarnhaodd rheolwr y practis fod y tair deintyddfa yn cael eu defnyddio ar gyfer gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol[1] a bod unedau cymorth anadlu mecanyddol wedi'u gosod yn y tair deintyddfa er mwyn hwyluso'r gwaith o gael gwared ar aer halogedig. Roedd y deintyddfeydd wedi cael eu tacluso a dim ond yr offer oedd ei angen ar gyfer pob triniaeth oedd wedi'u gadael yn yr ystafell. Roedd storfa ganolog ar wahân ar gyfer offer a chyfarpar glân i'w defnyddio.

Roedd cleifion a oedd am gael gweld y deintydd yn mynychu'r practis drwy apwyntiadau wedi'u trefnu ymlaen llaw yn unig. Roedd apwyntiadau ar gael ar yr un diwrnod ar gyfer gofal deintyddol brys. Roedd system dyddiadur ar-lein yn cael ei defnyddio i drefnu cyfnodau segur[2] ac roedd amser glanhau ychwanegol yn dibynnu ar y weithdrefn ddeintyddol a oedd yn cael ei chwblhau. Esboniodd rheolwr y practis fod cleifion yn cael eu sgrinio cyn eu hapwyntiad a bod cyfres o gwestiynau'n cael eu gofyn iddynt er mwyn penderfynu a oeddent

[1] Gweithdrefn feddygol yw gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol (AGP), a all arwain at ryddhau gronynnau yn yr awyr (aerosolau) o'r llwybr anadlol wrth drin unigolyn yr amheuir neu y gwyddys ei fod yn dioddef o haint a gaiff ei drosglwyddo, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, drwy'r awyr neu drwy ddefnynnau.

[2] Cyfnod segur yw'r amser tawel yn y ddeintyddfa ar ôl gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol (AGP) sy'n galluogi unrhyw ddefnynnau i setlo cyn unrhyw waith glanhau a diheintio.

mewn perygl o drosglwyddo COVID-19 a heintiau anadlol. Dywedwyd wrthym ei bod yn bosibl gweld cleifion brys a oedd yn arddangos arwyddion o heintiau anadlol ar ddiwedd sesiynau. Roedd y staff yn defnyddio cyfarpar diogelu personol llawn a defnyddiwyd gweithdrefnau glanhau manwl ar yr adegau hyn.

Dywedwyd wrthym fod y newidiadau wedi effeithio ar allu'r practis i gynnal gweithgareddau cofrestredig a gwelwyd rhestrau aros hirach yn ystod cyfyngiadau COVID-19. Cadarnhaodd rheolwr y practis a oedd newydd gael ei benodi fod rhagor o ddeintyddion wedi cael eu recriwtio dros y tri mis diwethaf ac, o ganlyniad, bod y rhestrau aros bellach wedi dychwelyd i'w lefelau cyn y pandemig. Dywedwyd wrthym fod apwyntiadau brys yn cael blaenoriaeth dros archwiliadau rheolaidd.

Cadarnhaodd rheolwr y practis fod arwyddion Cymraeg a Saesneg yn cael eu harddangos yn y practis a dywedwyd wrthym fod rhestr o ddeintyddion sy'n siarad Cymraeg ar gael yn y dderbynfa i'r cleifion hynny sydd am gael eu triniaeth ddeintyddol yn Gymraeg. Caiff cyrsiau hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg eu trefnu ar gyfer y staff.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ddiogel.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Copi o archwiliad diweddaraf Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05[3] a'r cynllun gweithredu
- Polisi rheoli heintiau
- Polisi COVID-19
- Polisi glanhau
- Amserlenni Glanhau'r Deintyddfeydd
- Cofnodion o wiriadau dyddiol o awtoclafau
- Gweithdrefn glanhau â llaw.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Edrychwyd ar yr archwiliad dihalogi diweddaraf o dan WHTM 01-05 a'r cynllun gweithredu. Dangosodd fod y practis wedi ymdrin â'r holl feysydd i'w gwella a nodwyd gan yr archwiliad.

[3] Mae WHTM 01-05 yn cynnwys gwybodaeth am archwiliad o gydymffurfiaeth â mesurau dihalogi. Mae'r archwiliad wedi cael ei ddatblygu gan ddeintyddion yng Nghymru ac mae Adran Ddeintyddol Addysg a Gwella Cymru yn cefnogi hyn.

Cawsom rai dogfennau sy'n gysylltiedig ag atal a rheoli heintiau cyn y gwiriad ansawdd. Roedd y rhain yn cynnwys polisi rheoli heintiau cynhwysfawr a adolygwyd ym mis Hydref 2022, polisi glanhau amgylchedd a manylion y prosesau glanhau â llaw dyddiedig mis Ebrill 2022 gyda dyddiadau i'w hadolygu'n rheolaidd. Gwelsom y cofnodion a oedd wedi'u cwblhau ar gyfer dihalogi offer a chyfarpar deintyddol dros y bythefnos ddiwethaf.

Dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff yn cael diweddariadau rheolaidd mewn perthynas â COVID-19 a rheoli heintiau drwy negeseuon e-bost wythnosol sy'n cynnwys bwletin corfforaethol. Os oedd y diweddariadau yn rhai brys, byddai'r wybodaeth hon yn cael ei rhannu dros WhatsApp ac mewn cyfarfodydd amser cinio. Cadarnhaodd rheolwr y practis fod y wybodaeth ddiweddaraf ar gael i bob aelod o'r staff drwy lwyfan ar-lein. Drwy gyfathrebu'n rheolaidd, sicrhawyd bod pawb wedi cael y cyngor, y canllawiau a'r wybodaeth arferion gorau diweddaraf.

Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau a bod hyfforddwyr ac aseswyr rhanbarthol yn ymweld â'r practis yn rheolaidd i sicrhau bod y staff yn gymwys ac yn hyderus yn atal a rheoli heintiau. Dywedwyd wrthym fod posteri a siartiau llif wedi'u harddangos ym mhob rhan o'r practis er mwyn sicrhau bod y staff yn gymwys ac yn hyderus i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, holodd AGIC gynrychiolwyr y gwasanaeth ynghylch sut maent yn rheoli eu gwasanaethau er mwyn helpu i ddarparu gofal iechyd o ansawdd uchel. Gwnaethom ystyried a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod y staff yn addas i gyflawni eu rolau a'u bod wedi cael yr hyfforddiant priodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Ymhlith y prif ddogfennau a welsom roedd:

- Adroddiad Rheoliad 23 (ymweliad yr Unigolyn Cyfrifol)
- Polisi cydsyniad ar sail gwybodaeth
- Cynllun parhad busnes
- Cofnodion hyfforddiant gorfodol i bob aelod o'r staff
- Datganiad o ddiben[4]

[4] Y datganiad o ddiben yw'r wybodaeth sy'n ofynnol gan Atodlen 1 i Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru). Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys nodau ac amcanion y practis ac enwau a chymwysterau'r deintyddion a'r staff deintyddol. Dylai restru'r mathau o driniaeth, cyfleusterau a phob gwasanaeth arall a ddarperir yn y practis deintyddol preifat neu at ei ddibenion, gan gynnwys manylion yr ystod o anghenion y bwriedir i'r gwasanaethau hynny eu diwallu.

- Taflen wybodaeth i gleifion[5]
- Archwiliad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)
- Archwiliad Cardiau Cofnodion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Cawsom gopi o'r datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion, a oedd yn cynnwys y wybodaeth berthnasol am y gwasanaethau a gynigir. Gwelsom sampl o bolisïau a gweithdrefnau'r practis. Roeddent wedi'u dyddio, eu llofnodi ac roeddent yn cynnwys dyddiad adolygu.

Gwelsom gopi o'r adroddiad blynyddol, a baratowyd yn unol â rheoliad 23 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Roedd rheolwr y practis yn newydd yn y swydd ac roedd wedi cwblhau proses gofrestru Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ym mis Hydref 2022.

Disgrifiodd rheolwr y practis y broses a oedd ar waith i roi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau. Dywedwyd wrthym y byddai unrhyw ddigwyddiadau yn cael eu cofnodi a'u trafod ar yr un diwrnod, ac wedyn y byddai AGIC ac asiantaethau eraill yn cael eu hysbysu amdanynt fel sy'n briodol.

Cawsom ein hysbysu gan reolwr y practis fod y practis wedi aros ar agor drwy gydol y pandemig a bod unrhyw gyflenwad o staff brys dros dro wedi cael ei drefnu drwy gytundeb â phractis deintyddol lleol.

Gwelsom dystiolaeth o gofnodion hyfforddiant, a oedd yn dangos cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol gan gynnwys dadebru cardio-anadlol, atal a rheoli heintiau, diogelu a hyfforddiant tân. Esboniodd rheolwr y practis y broses ar gyfer sicrhau bod hyfforddiant yn gyfredol, ac roedd y staff yn defnyddio pecynnau hyfforddiant ar-lein a hyfforddiant wyneb-yn-wyneb o hyd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

Dywedwyd wrthym mai nod y practis oedd gwella'r gwasanaeth a ddarperir i gleifion yn barhaus. Gwelwyd tystiolaeth o hyn yn y dogfennau archwilio a ddarparwyd gyda'r hunanasesiad, a oedd yn cynnwys archwiliad o ansawdd radiograffau, archwiliad o gardiau cofnodi ac archwiliad dihalogi WHTM 01-05. Roedd dyddiad wedi'i nodi ar yr adroddiadau archwilio, roedd camau gweithredu yn cael eu nodi ac roedd themâu yn cael eu monitro.

Dywedwyd wrthym fod archwiliadau rheolaidd o gyfarpar a meddyginiaethau brys yn cael eu cynnal. Roedd archwiliadau dyddiol wedi'u dogfennu o gyffuriau brys a chyfarpar ategol arall, ac roedd archwiliadau o ddyddiadau dod i ben meddyginiaethau wedi'u dogfennu ac yn cael eu llofnodi'n fisol.

[5] Mae'r daflen wybodaeth hon, a ddarperir i'r cleifion, yn cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol gan Atodlen 2 i'r rheoliadau uchod.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella a phryderon uniongyrchol yn ystod ein gwiriad ansawdd y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn:

- Atodiad A: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd

- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn dweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i ymdrin â'r meysydd hyn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws ardaloedd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A - Cynllun gwella ar unwaith

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | Canolfan Ddeintyddol Townhill, Abertawe |
| Dyddiad y gweithgarwch: | 14 Tachwedd 2022 |

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Nid oes unrhyw welliannau ar unwaith yn ofynnol.** | | | | |
| | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

# Atodiad B: Cynllun gwella

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | Canolfan Ddeintyddol Townhill, Abertawe |
| Dyddiad y gweithgarwch: | 14 Tachwedd 2022 |

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Nid oes unrhyw welliannau yn ofynnol. | | | | |
| | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

Dyddiad: